## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (TAL-Y-BONT I DRE TALIESIN, CEREDIGION) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, rhwng Tal-y-bont a Thre Taliesin, Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Bydd beicwyr a cherddwyr yn cael eu gwahardd rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir ym mharagraff 1 o'r Atodlen.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd o bwynt deheuol y darn o'r ffordd sydd ar gau yw mynd ar yr A487 tua'r de i Bow Street, yr A4159 tua'r de i Gomins-coch, yr A44 tua'r dwyrain i Langurig, yr A470 tua'r gogledd-ddwyrain i Gaersŵs, yr A470 tua'r gogledd-orllewin i Lantwymyn a'r A489 tua'r de-orllewin i Fachynlleth i ailymuno â'r A487: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de o bwynt gogleddol y darn o'r ffordd sydd ar gau. Os oes angen, bydd y contractwr yn hebrwng cerddwyr drwy'r safle gwaith.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 2 Mawrth 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) rhwng 2 a 27 Mawrth 2026 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

## THE A487 TRUNK ROAD (TAL-Y-BONT TO TRE TALIESIN, CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road between Tal-y-bont and Tre Taliesin, Ceredigion.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice. Cyclists and pedestrians will be prohibited from proceeding on the length of the trunk road specified in paragraph 1 of the Schedule.

The alternative route for northbound vehicles from the southern point of the closure is via the southbound A487 to Bow Street, southbound A4159 to Commins Coch, eastbound A44 to Llangurig, north-eastbound A470 to Caersws, north-westbound A470 to Glantwymyn and south-westbound A489 to Machynlleth to re-join the A487: vice versa for southbound traffic from the northern point of the closure. If necessary, the contractor will escort pedestrians through the works site.

The Order comes into force on 2 March 2026. The temporary prohibition is expected to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) from 2 – 27 March 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

**YR ATODLEN**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Maes-y-Deri, Tal-y-bont hyd at ei chyffordd â'r C1031 (arwydd 'Dolybont') yn Nhre Taliesin, Ceredigion.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r eiddo a elwir 'Golden Key' hyd at ei chyffordd â Maes-y-Deri, Tal-y-bont, Ceredigion.

**SCHEDULE**

The length of the trunk road that extends from its junction with Maes-y-Deri, Tal-y-bont to its junction with the C1031 (signposted 'Dolybont') at Tre Taliesin, Ceredigion.

The length of the trunk road that extends from the property known as 'Golden Key' to its junction with Maes-y-Deri, Tal-y-bont, Ceredigion.